# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)11-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 23 Hydref 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn Bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)10-07 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 16 Hydref 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)11-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 23 a 24 Hydref 2007.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ddialysis Arennol a oedd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mercher yn cael ei ohirio tan 21 Tachwedd 2007.

3.3 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad llafar am Ofal Lliniarol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai Cyfnod Pleidleisio'n cael ei gynnal ddim cynharach na 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)11-07(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth - BC(3)11-07(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor y byddai dadl yn ceisio caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod gan Mike German, ynghylch Cau Ysgolion (Ymgynghori a Chategorïau) yn cael ei threfnu ar gyfer 7 Tachwedd 2007.

3.7 Pennodd y Pwyllgor Fusnes y Cynulliad.

3.8 Pennodd y Pwyllgor y Busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol** - **BC(3)11-07(p4)**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Anghenion dysgu Ychwanegol i ymestyn y dyddiad cau i'r Pwyllgor roi adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd bod y cais am estyniad o wythnos i'r dyddiad cau o 30 Tachwedd yn cael ei wneud er mwyn galluogi'r Pwyllgor Deddfau i ddefnyddio'r cyfarfod ar 22 Tachwedd i gwblhau ei adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynnig.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - BC(3)11-07(p5)**

4.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ganiatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau. Dywedodd y Cadeirydd fod y ddeiseb wedi ei chyfeirio at y Pwyllgor dros Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i'w hystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at y mater unwaith y byddai wedi cael ystyriaeth.

**5. Unrhyw Fater Arall**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i sefydlu Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn cael ei drefnu ar gyfer 7 Tachwedd 2007. Cytunodd y Pwyllgor Busnes na ddylai Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd gyfarfod yn fwy aml nag unwaith y tymor.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**